


CYNGOR TREF PORTHMADOG



COFNODION PWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL ar Microsoft Teams am 19.00 nos Fawrth Tachwedd 29 2022 (Gohirwyd y cyfarfod tan Ragfyr 6 2022)

Presennol :- Cyngorwyr :- Dr Melfyn Edwards, Gwilym Jones, Aled Griffith, Michael Roberts
Marian Roberts (Clerc)

Yn absenoldeb y Cadeirydd, Llywelyn Rhys, cytunodd Cyng Gwilym Jones i gadeirio'r cyfarfod.
Dechreuodd drwy groesawu pawb i'r cyfarfod.

1. Ymddiheuriadau :- Cyngorwyr Llywelyn Rhys (Cadeirydd), Llinos Murphy

2. Archwilio'r cyfrifon. (Mantolen hyd at Dachwedd 21 ynghlwm).
Cafwyd y Fantolen yn gywir yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

3 Amcangyfrif gwariant hyd at 31.3.23 (copi ymghlwm) a phenderfynu ar flaenoriaethau
2023-24

Trafodwyd y ddogfen a chytunwyd fod y sefyllfa ariannol yn iach iawn. Esboniwyd sut i ddehongli'r
wybodaeth a chytunwyd y bydd cynnydd sylweddol eto yng nghoffrau'r Cyngor Tref pan dderbynir
Incwm Meysydd Parcio 2022.

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Michael Roberts
yn eilio.

4. Graddfa Cyflog newydd Clercod 2022-23 (copi ynghlwm)

Nodwyd fod y Clerc ar reng 25 o raddfa cyflog y NALC a bod ei chyflog wedi codi o £15.64 yr awr i
£16.64 yr awr. Bydd hyn yn weithredol o gyflog Tachwedd 2022 ymlaen.

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards

5. Dechrau trafodaeth am braesept 2023/2024.(Gweler Cyllideb, a Thabl Praesept ynghlwm)

Eglurodd y Clerc fod Cyngor Gwynedd yn oedi cyn gyrru allan manylion y Sylfaen Drethiannol
oherwydd y bleidlais ddiweddar ynglyn â threthi Tai Haf. Golyga hyn nad oes modd rhannu'r tabl
arferol er mwyn i'r Is-Bwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor llawn ddod i benderfyniad pendant ynglyn â gosod y
Praesept ar gyfer 2023-24. Nodwyd fod y Praesept wedi aros yr un fath ers 3 blynedd a chytunwyd
na ddylid ei godi i'r un raddfa â chwyddiant oherwydd fod y Cyngor Tref yn derbyn arian ychwanegol
drwy'r cynllun Meysydd Parcio. Awgrymodd Cyng Aled Griffith y dylai'r Cyngor Tref yrru llythyr i
longyfarch Portmeirion am ddefnyddio maes parcio Llyn Bach ar gyfer cwsmeriaid yr Ŵyl Fwyd eleni
gan fod hyn yn ychwanegu at yr incwm Meysydd Parcio ac i ofyn yn garedig iddynt ystyried defnyddio
maes parcio wrth y Stesion yn ogystal ar gyfer Gŵyl Fwyd y flwyddyn nesaf.

6. Penodi Archwiliwr Mewnol ar gyfer 2023/2024.

Penderfynwyd :- gofyn i Bleddyn Rhys o Adran Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd i ymgymryd â'r
gwaith ar gyfer archwiliad 2022-2023 yn ôl yr arfer yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Aled
Griffith yn eilio.

7. Biliau i'w talu – gwariant disgwylidig

Penderfynwyd :-

- awdurdodi y taliadau canlynol i gyd onibai am yr un i Gyngor Gwynedd am y cytundeb toiledau
- pasio'r mater ymlaen i'w drafod gan y Pwyllgor Llawn
- y Clerc i chwilio am gopi o'r cytundeb gwreiddiol
- y Clerc i edrych yn ôl i olrhain y taliadau a wnaethpwyd yn y gorffennol yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

1	GARDENCRAFT	5 x twb blodau / pridd a phlanhigion	£ 3,420.00
2	CYNGOR GWYNEDD	Cytundeb toiledau 2022-2023	£ 8,000.00
3	ASHLEY HUGHES	Papur llungopïo	£ 16.79
4	JOHN EVANS - HEBOGWR	Gwaith hebogwr Haf 2022 – ail daliad – siec 203314 gwreiddiol wedi ei gwrthod	£ 400.00
5	GLASFRYN	5 coeden Nadolig a chludiant	£ 912.60
6	PENRHYN TOOL HIRE	Peiriant gosod y seren ar y goeden	£ 175.20

8. Ceisiadau Cynllunio

(a) Rhif Cais .: C22/1061/44/DT (wedi ebostio i'ch sylw 18.11.22)

Lleoliad /11, The Oakeleys Cei Oakley, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9AJ

Bwriad I: Drws ffrynt newydd

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad

(b) Rhif Cais C22/1072/44/TC (wedi ebostio i'ch sylw 21.11.22)

Lleoliad: Ffermdy Garreg Wen Ffordd Morfa Bychan, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UG

Bwriad I: Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon am ddefnyddio modurdy fel gweithdy busnes diwydiant ysgafn (dosbarth defnydd B1(c))

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad

Daeth y cyfarfod i ben am 18.48

Marian Roberts (Clerc)

7.12.22